------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 16 Tachwedd 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

# 103(v5)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Weinidog yr Economi**

Vikki Howells (Cwm Cynon): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y newyddion diweddar bod Garth Bakery wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr?

**Gofyn i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**

Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru): Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i hyrwyddo cydlyniant cymunedol yn dilyn honiadau difrifol a wnaed am Heddlu Gwent?

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## Cynnig i ethol Aelodau i bwyllgorau

(5 munud)

**NNDM8135** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol:

1. Peredur Owen Griffiths (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

2. Mabon ap Gwynfor (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

3. Llyr Gruffydd (Plaid Cymru) yn aelod o Bwyllgor y Llywydd.

## Cynnig i ethol Aelod i'r Pwyllgor Deisebau

(5 munud)

**NNDM8134** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Rhys ab Owen (Annibynnol) yn aelod o'r Pwyllgor Deisebau.

## 5 Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Senedd ar gyfer 2023-24 - Tynnwyd yn ôl

(0 munud)

**NDM8124** Ken Skates (De Clwyd)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 20.16:

Yn cytuno ar gyllideb Comisiwn y Senedd ar gyfer 2023-24, fel y pennir yn Nhabl 1 o Gyllideb Comisiwn y Senedd ar gyfer 2023-24, a osodwyd gerbron y Senedd ar 9 Tachwedd 2022, a'i bod yn cael ei hymgorffori yn y Cynnig Cyllidebol Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26(ii).

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

Ymateb Comisiwn y Senedd i adroddiad y Pwyllgor Cyllid

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith – Cysylltedd digidol – band eang

(60 munud)

**NDM8123** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: 'Cysylltedd digidol – band eang', a osodwyd ar 1 Awst 2022.

Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Tachwedd 2022.

## 7 Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig – Pwysau costau byw

(60 munud)

**NDM8129** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Pwysau costau byw a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Gorffennaf 2022.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2022.

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Toiledau Changing Places

(30 munud)

**NDM8126** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu mecanwaith ariannu addas a chanllawiau clir i awdurdodau lleol i sicrhau bod yna ddarpariaeth deg o doiledau Changing Places ym mhob sir yng Nghymru.

## 9 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Deddf Diogelwch Adeiladau 2022

(30 munud)

**NDM8127** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r holl bleidiau gwleidyddol yn Senedd Cymru i hwyluso deddfiad prydlon sy'n ymgorffori adrannau 116 i 125 o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 i gyfraith Cymru i gryfhau hawliau trigolion yng Nghymru.

**Dogfennau Ategol**

Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Saesneg yn unig)

## 10 Cyfnod Pleidleisio

## 11 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8125** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Rasio ceffylau: ased economaidd ac ased chwaraeon i Gymru

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 22 Tachwedd 2022

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 09/11/2022 i'w hateb ar 16/11/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## GWEINIDOG YR ECONOMI

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

1 OQ58714 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith economaidd cau bont Borth?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

2 OQ58704 **(e)**

Sut fydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygu technoleg uwch yn y sector amddiffyn yng ngogledd Cymru?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

3 OQ58711 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyhoeddiad Rolls-Royce ynghylch safleoedd atomfeydd niwclear newydd a pherthynas hyn â chwmni Egino?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

4 OQ58719 **(w)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU parthed perthnasedd y gronfa ffyniant gyffredin i awdurdodau lleol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

5 OQ58716 **(w)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu i sicrhau hawliau gweithwyr sy'n gweithio yn yr economi nos?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

6 OQ58707 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaeth y Llywodraeth ar gyfer gwella canlyniadau'r farchnad lafur i fenywod?

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

7 OQ58717 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog yn eu cael gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd ar hyrwyddo manteision economaidd cynhyrchu ynni ar y môr yng ngogledd Cymru?

8

**Peter Fox** *Mynwy*

OQ58701 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith ei gweledigaeth strategol a rennir ar gyfer y sector manwerthu?

9

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

OQ58710 **(e)**

Pa gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei darparu i helpu pobl i gael gyrfaoedd yn y sector cyhoeddus?

10

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

OQ58720 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r gostyngiad yn nifer y teithwyr ym Maes Awyr Caerdydd?

11

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

OQ58691 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith ar yr economi leol ac economi Cymru sy'n deillio o weithfeydd gweithgynhyrchu Technoleg Sony UK sydd wedi'u lleoli ym Mhencoed?

12

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

OQ58695 **(e)**

Pa gefnogaeth y mae'r Llywodraeth yn ei darparu ar gyfer busnesau yn Nwyrain De Cymru sy'n dal i deimlo effeithiau pandemig COVID?

## Y GWEINIDOG IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

1

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

OQ58690 **(e)**

Pa asesiad diweddar y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r gwasanaeth ysbyty i'r cartref a ddarperir drwy'r bartneriaeth rhwng Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr ac Ysbyty Tywysoges Cymru?

2

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

OQ58685 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am amseroedd aros ambiwlansys yn Nwyrain De Cymru?

**Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

3 OQ58689 (e)

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am argaeledd profion calprotectin ysgarthion mewn lleoliadau gofal sylfaenol yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

4 OQ58699 (e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd ymateb ambiwlans ym Mlaenau Gwent?

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

5 OQ58708 (e)

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i dorri amseroedd aros ambiwlansys?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

6 OQ58705 (e)

Sut mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod pobl sy'n byw yng nghanolbarth Cymru'n cael mynediad digonol at wasanaethau'r GIG?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

7 OQ58698 (e)

Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella iechyd y cyhoedd yng Ngorllewin De Cymru?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

8 OQ58688 (e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddarparu gwasanaethau iechyd yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

9 OQ58694 (e)

Sut mae Llywodraeth Cymru'n gweithio i amddiffyn plant sy'n cael eu geni â phroblemau difrifol ar y galon?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

10 OQ58687 (e)

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n cael ei wneud i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau mamolaeth yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

11 OQ58706 **(w)**

Pa gefnogaeth sydd ar gael i ferched yn Arfon sy'n profi problemau iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â mamolaeth?

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

12 OQ58718 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o lefelau staffio'r GIG yng ngogledd Cymru?